LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Straeon mudo i Gymru

Cip-olwg o hanes mudo i Gymru

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Pam fod pobl yn mudo?

Mae pobl yn mudo am nifer o resymau gwahanol, gan gynnwys ffactorau economaidd, cymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol. Mae mudo yn fater cymhleth sy'n cael ei dylanwadu gan ffactorau gwthio a thynnu, sy'n sbarduno unigolion neu grwpiau i adael a setlo mewn lleoliad newydd.

Ffactorau gwthio a thynnu

Gwleidyddol

Amgylcheddol

Economaidd

Cymdeithasol

Ffactorau gwleidyddol

Gall ansefydlogrwydd gwleidyddol orfodi pobl i ffoi o'u cartrefi i chwilio am fan diogel. Mae rhain yn cynnwys:

- erledigaeth
- diffyg hawliau dynol
- rhyfeloedd

Mae ffoaduriaid yn enghraifft dda o unigolion sydd wedi'u gorfodi i fudo am resymau gwleidyddol. Yn aml maent yn wynebu sefyllfaoedd sy'n peryglu'u bywydau yn eu mamwlad ac yn chwilio am loches (diogelwch) mewn gwledydd eraill.

Ffactorau amgylcheddol

Gall trychinebau naturiol ddinistrio cymunedau'n llwyr a gorfodi pobl i symud dros dro neu'n barhaol, fel:

- corwyntoedd
- llifogydd
- cyfnodau o sychder
- daeargrynfeydd

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn sbarduno mwy a mwy o bobl i fudo, wrth i lefel y môr godi, wrth i dir droi'n ddiffeithwch, ac wrth i dywydd eithafol olygu ei bod hi'n amhosibl byw neu gynnal bywoliaeth mewn rhai ardaloedd.

Ffactorau economaidd

Mae nifer o bobl yn mudo i chwilio am gyfleoedd economaidd gwell, megis:

- cyflogau uwch
- mwy o swyddi
- gwell safonau byw

Gall ffactorau yn eu mamwlad wthio pobl i chwilio am gyfleoedd gwell mewn man arall, fel:

- tlodi
- diweithdra
- diffyg mynediad at adnoddau
- rhagolygon economaidd gwae

Ffactorau cymdeithasol

Gall pobl fudo i ymuno ag aelodau o'r teulu sydd wedi setlo yn barod mewn lleoliad arall.

Mae'r math yma o fudo yn aml wedi'i sbarduno gan yr awydd i

- ailuno'r teulu
- y gobaith o adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol cryfach.

Hefyd, gall unigolion fudo am resymau addysgol, i chwilio am addysg well na'r un sydd ar gael yn eu mamwlad.

Pam mae pobl yn mudo? Dewiswch o leiaf un o'r opsiynau am bob rheswm.

- Economaidd
- Gwleidyddol
- Cymdeithasol
- Amgylcheddol